# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** | |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2015** | |
| Amser: | **09.00 - 10.59** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2610**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Peter Higson, BCUHB**<br>**Geoff Lang, BCUHB**<br>**Trevor Purt, BCUHB**<br>**Dave Cooil, North & Mid Wales Trunk Road Agent**<br>**Ian Hughes, North & Mid Wales Trunk Road Agent**<br>**Richard Jones, South Wales Trunk Road Agent**<br>**Gareth Nutt, South Wales Trunk Road Agent** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Ail Glerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**<br>**Andrew Minnis (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

Jeremy Morgan (Swyddfa Archwilio Cymru)
Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)
Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)
Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Asiant Cefnffyrdd De Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ynglŷn â'i ymchwiliad i werth am arian buddsoddi mewn traffyrdd a chefnffyrdd. Cytunodd yr Asiantau Cefnffyrdd i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am gydgysylltu'r gwaith o gynnal a chadw a gwella traffyrdd a chefnffyrdd a heolydd lleol, a nifer y blynyddoedd na chafwyd cadarnhad ar gyfer eu dyraniad o'r gyllideb tan ar ôl 1 Ebrill.

## 4 Trefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Sesiwn dystiolaeth 1

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch ei drefniadau llywodraethu.

4.2 Cytunodd Dr Higson i ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â:

- hynt trafodaethau'r bwrdd ynghylch Ysbyty Glan Clwyd gan gynnwys materion recriwtio;
- ‘Well North’;
- gohebiaeth mewn perthynas ag Ysbyty Glan Clwyd, yn enwedig y llyfryn;
- hyfforddiant ar gyfer aelodau'r bwrdd;
- dangosyddion perfformiad.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.